# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)16-07**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 4 Rhagfyr 2007

**Amser:** 8.30am

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, Llawr 4, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)15-07 (Cofnodion drafft) - dydd Mawrth 27 Tachwedd 2007**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)16-07(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r datganiad gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig am Ffermwyr Ifanc, a drefnwyd ar gyfer dydd Mercher, yn cael ei ddisodli gan ddatganiad am Adolygu'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

3.2 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r Gweinidog dros Faterion Gwledig yn gwneud datganiad llafar am 'Newydd-ddyfodiaid' yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 22 Ionawr 2008.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor y byddai cynnig yn cael ei gyflwyno i atal Rheolau Sefydlog, a hynny er mwyn cyflwyno cynigion i sefydlu ac ethol Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Gofal Cartref ddydd Mercher.

3.4 Nododd y Pwyllgor y busnes ar gyfer 4 a 5 Rhagfyr 2007.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor na fyddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn 5pm ddydd Mercher ar gyfer busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)16-07(p2)**

3.6 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)16-07(p3)**

3.7 Dywedodd Arweinydd y Tŷ fod "'Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 5) 2008'" ynghylch Tai Fforddiadwy wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Rhagfyr 2007. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai cynnig i sefydlu ac ethol pwyllgor i drafod y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Tai Fforddiadwy yn cael ei drefnu cyn gynted â phosibl.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol**

**Adroddiad y Pwyllgor a llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol - BC(3)16-07(p4)**

4.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Adroddiad y Pwyllgor.

**Papur ar y Gorchymyn ynghylch Codi Tâl am Ofal Cymdeithasol Dibreswyl (Gofal Cartref) - BC(3)16-07(p5)**

4.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Gofal Cartref, a hynny er mwyn trafod "'Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 4) 2008'. "Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r amserlen yn cael ei gosod gerbron y Cynulliad. Nododd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Pwyllgor sydd i drafod y Gorchymyn yn cael ei sefydlu a'i ethol ar 5 Rhagfyr.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**